# O tyred i'n gwaredu, Iesu da

## Caneuon Ffydd: Rhif 375

O tyred i'n gwaredu, Iesu da,
fel cynt y daethost ar dy newydd wedd,
a'r drysau 'nghau, at rai dan ofnus bla,
a'u cadarnhau â nerthol air dy hedd:
llefara dy dangnefedd yma nawr
a dangos inni greithiau d'aberth mawr.

Yn d'aberth di mae'n gobaith ni o hyd,
ni ddaw o'r ddaear ond llonyddwch brau;
o hen gaethiwed barn rhyfeloedd byd
hiraethwn am y cymod sy'n rhyddhau:
tydi, Gyfryngwr byw rhwng Duw a dyn,
rho yn ein calon ras i fyw'n gytûn.

Cyd-fyw'n gytûn fel brodyr fyddo'n rhan,
a'th gariad yn ein cynnal drwy ein hoes;
na foed i'r arfog cry' orthrymu'r gwan,
ac na bo grym i ni ond grym y groes:
rhag gwae y dilyw tân, O trugarha
a thyred i'n gwaredu, Iesu da.

JOHN ROBERTS, 1910 – 84

### MYFYRDOD

"Tangnefedd i chwi!" dywedodd Iesu wrth y disgyblion hynny oedd wedi hel at ei gilydd oherwydd bod ofn arnyn nhw beth oedd yn mynd i ddigwydd ar ôl i Iesu gael ei groeshoelio. Dweud ar gân yr hanes hwnnw, fel y'i ceir yn Ioan 20, mae John Roberts yn ei emyn, gan ofyn i Iesu ddod eto i'n plith i'n gwaredu ac i lefaru ei 'dangnefedd yma'n awr'.

Er mwyn derbyn y 'tangnefedd' hwn gyda Duw trwy Iesu Grist, mae'n rhaid inni yn gyntaf sylweddoli bod arnom ni angen rhywun i'n gwaredu, ond ein gwaredu rhag beth yw'r cwestiwn.

Sonia'r Beibl fod angen ein gwaredu rhagom ein hunain: '"Y mae'r galon yn fwy ei thwyll na dim, a thu hwnt i iachâd; pwy sy'n ei deall hi?"' (Jer. 17:9), a gofidiai Eseia wedyn: ''Rydym ni i gyd wedi crwydro fel defaid, pob un yn troi i'w ffordd ei hun' (Eseia 53:6). Sonia Paul wedyn yn y Testament Newydd ein bod i gyd yn ddiwahaniaeth wedi syrthio yn brin o gyrraedd safonau Duw (Rhuf. 3:23) ac nad oes dim y gallwn ni ei wneud ohonom ein hunain ynglŷn â hynny.

'Yn d'aberth di mae'n gobaith ni o hyd', meddai John Roberts, oherwydd 'rhoes yr Arglwydd arno ef ein beiau ni i gyd.' (Eseia 53:6) Fe ddarparwyd gwaredigaeth i ni i gyd gan Iesu; nid yw cyflwr dyn yn gwella ohono'i hun ac yr ydym yn dal o dan 'hen gaethiwed barn rhyfeloedd byd'. Roedd angen un o'r tu allan i'n gwared ni, rhywun a allai ddod atom er bod y drysau ynghau, a'n dwyn ni yn ôl i berthynas â Duw. 'Oherwydd dioddefodd Crist yntau un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw' (1 Pedr 3:18).

Wedi derbyn ei waredigaeth, gallwn ddisgwyl gyda'r emynydd i'w gariad 'ein cynnal drwy ein hoes', oherwydd y mae'n abl i'n gwaredu ac i'n cynnal: 'Y mae'r Arglwydd yn medru gwaredu'r duwiol o'u treialon' (2 Pedr 2:9). 'Rhag pwy yr ofnaf?' dywed y Salmydd (Salm 27:1); nid oes 'ofnus bla' i fod iddo ef nac i'r disgyblion wedyn chwaith a gafodd eu nerthu gan yr Ysbryd Glân i ddisgwyl am bethau mawr ar ddydd y Pentecost. W. E. Sangster sy'n sôn amdanyn nhw fel disgyblion yn cael eu troi o fod fel cwningod ofnus yn cuddio yn eu tyllau eu hunain i fod yn ffuredau beiddgar yn mynd allan i ddal eraill ar ôl i'r Ysbryd Glân yma ddod arnyn nhw.

## GWEDDI

O tyred i'n gwaredu, Iesu da, wrth i ninnau sylweddoli ein hangen am dy waredigaeth di ac nad oes modd inni ein gwared ein hunain. Gwared ninnau o'n hofnus bla a helpa ninnau i ddatgan gyda'r Salmydd: 'Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm gwaredigaeth, rhag pwy yr ofnaf?' Amen.